



Canllawiau ar gyfer ailagor Canolfannau Cymunedol yng Nghymru

RHAGAIR

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer canolfannau cymunedol yng Nghymru i roi trosolwg byr i chi o sut i baratoi ar gyfer ailgychwyn eich gwasanaethau.

Wrth ysgrifennu'r canllaw diwygiedig hwn, mae Cymru yn symud yn raddol drwy'r lefelau rhybudd. Gweler [Cynllun Rheoli'r Coronafeirws](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gael gwybodaeth am y lefelau rhybudd amrywiol.

Gall canolfannau cymunedol ailagor a diben y canllawiau diweddaraf hyn yw amlinellu'r newidiadau i'r rheoliadau a chynnig ffyrdd ymarferol i chi o agor eich canolfan cymunedol.

Ar hyn o bryd, nid oes cyfyngiadau ar deithio o fewn Cymru, na chyfyngiadau sirol, sy'n golygu y gall pobl o wahanol siroedd yng Nghymru fynd i gynulliad a reoleiddir, a alwyd yn weithgaredd wedi'i drefnu cyn hyn. Fodd bynnag, noder y gall y sefyllfa hon newid os bydd lefel yr achosion yn cynyddu.

Rhaid i'r sawl sy'n trefnu'r cynulliad a reoleiddir gydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, gweler llyw.cymru/coronafeirws.

Er bod lefel yr achosion o coronafeirws wedi gostwng, mae'n parhau i fod yn hollbwysig i chi gadw at reolau cadw pellter cymdeithasol, osgoi cyffwrdd ag arwynebau a'ch wyneb ac i olchi eich dwylo'n rheolaidd.

Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ers yr ysgrifennwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2020. Bydd newidiadau'n parhau, felly mae'n bwysig iawn sicrhau eich bod yn darllen y fersiwn ddiweddaraf.

Mae'r rheoliadau yn gosod nifer o gyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau eraill, ac mae'n rhaid i chi weithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau, fel y cânt eu diweddarau neu eu diwygio.

Mae'r canllawiau hyn yn gywir ar adeg eu cyhoeddi, ac argymhellwn eu bod yn cael eu darllen ochr yn ochr â chanllawiau'r llywodraeth, y bydd angen i chi gadw llygad arnynt yn rheolaidd am ddiweddariadau. Yng Nghymru, gallwch gyfeirio at y safleoedd hyn am gyfarwyddyd: [Llywodraeth Cymru](#) ac [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#). Dylech hefyd gyfeirio at ganllawiau a ddarperir gan [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(Saesneg yn unig\)](#). I weld y rheoliad ei hun ac unrhyw ddiweddariadau neu ddiwygiadau, gweler [yma](#).

Nid yw'r canllawiau hyn yn gyngor cyfreithiol ac nid yw CGGC yn derbyn unrhyw atebolrwydd sy'n deillio ohonynt ac nid yw'n gyngor proffesiynol. Mae CGGC yn argymhell eich bod yn gwneud eich gwaith ymchwil eich hun ochr yn ochr â'r canllawiau hyn i sicrhau eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch eich safle, eich staff, gwirfoddolwyr, cwsmeriaid a'r gymuned.

Os byddwch chi'n penderfynu agor eich canolfan gymunedol, dylech dim ond gwneud hynny pan fydd yn ddiogel i wneud hynny a phan fyddwch chi'n teimlo'n ddigon hyderus i allu amddiffyn defnyddwyr y safle a chydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau perthnasol. Tan hynny dylai eich lleoliad aros ar gau.

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

Cofiwch, os bydd rhywun yn mynd yn sâl gyda pheswch parhaus newydd; tymheredd uchel; colli neu newid yn ei synnwyr arogli neu flasu arferol, dylid ei anfon adref a'i gynghori i gael prawf a dilyn y cyngor i aros gartref.

Cofiwch, nid yw'r ffaith y gallwch chi ailagor eich canolfan gymuned yn golygu bod yn rhaid i chi wneud hynny.

Y PRIF NEWIDIADAU PAN YSGRIFENNWYD HWN AR 8 MEHEFIN 2021:

1. Gall hyd at 30 o bobl (os oes lle) gwrdd o dan do ar gyfer cynulliad a reoleiddir. Nid yw'r 30 o bobl yn cynnwys plant o dan 11 oed na phobl sy'n gweithio neu'n darparu gwasanaethau gwirfoddol fel rhan o'r cynulliad.

Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i'r ystafell fod â lle i 30 o bobl, gan ystyried y rheolau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol sydd angen i chi eu rhoi ar waith. Er mai'r uchafswm yw 30, mae'n bosibl mai dim ond lle i 10 unigolyn sydd gennych, er enghraifft.

2. Yr uchafswm sy'n gallu mynychu cynulliadau a reoleiddir y tu allan yw hyd at 4,000 o bobl o unrhyw oed (yn sefyll) a 10,000 o bobl o unrhyw oed yn eistedd. o bobl gwrdd y tu allan ar gyfer cynulliad ffurfiol a reoleiddir. Nid yw'r niferoedd hyn yn cynnwys plant o dan 11 oed na phobl sy'n gweithio ar y gweithgarwch neu'n ei ddarparu.
3. Gelwir gweithgareddau wedi'u trefnu yn gynulliadau a reoleiddir bellach yn y ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Mae hyn yn golygu, i gynulliad gael ei ystyried yn un 'a reoleiddir', mae'n rhaid iddo gael ei drefnu gan un o'r canlynol:

- busnes

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

- corff cyhoeddus neu sefydliad elusennol, buddiannol, addysgol neu ddyngarol
- clwb neu fudiad gwleidyddol
- neu gorff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon neu weithgaredd arall

ac

- Rhaid i'r sawl sy'n trefnu'r gweithgaredd gynnal asesiad risg a fyddai'n bodloni gofynion [Rheoliad 3 Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999\(1\)](#). Hefyd, gweler [ASESIAD RISG](#) am ragor o wybodaeth

a

- Rhaid cymryd camau rhesymol. Yn ôl y rheoliadau, caiff canolfan gymunedol ei ystyried yn 'safle a reoleiddir'. Felly mae'n ofyniad cyfreithiol i gymryd camau rhesymol i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â choronafeirws o fewn safle a reoleiddir. Dylech gyfarwyddo'ch hun â'r adran sydd wedi'i diweddarau ar FESURAU RHESYMOL sydd wedi'i diwygio yn y set ddiweddaraf o reoliadau.

CYNNWYS

MESURAU RHESYMOL.....	6
ASESU RISG	7
CADW PELLTER CORFFOROL/CYMDEITHASOL.....	8
AWYRU	9
ARWYDDION DIOGELWCH A CHADW PELLTER CORFFOROL	10
GLANWEITHDRA	10
GORCHUDDION WYNEB.....	11
PROFION LLIF UNFFORDD.....	12
PROFI, OLRHAIN, DIOGELU	13
AP COVID-19 Y GIG	14
YR UNIGOLYN/UNIGOLION CYFRIFOL.....	14
POBL AGORED I NIWED	15
GWIRFODDOLWYR	16
YSWIRIANT	16
YMDDIRIEDOLWYR A LLYWODRAETHU DA.....	17
CYMRYD ARCHEBION A THALU GYDAG ARIAN PAROD	17
CONTRACTAU A LLOGI CANOLFANNAU	18
GLANHAU.....	19
CYNNYRCH GLANHAU.....	20
CYFLENWADAU CYFARPAR DIOGELU PERSONOL (PPE)	21
CYDRADDOLDEB.....	22
YR IAITH GYMRAEG	22
DEFNYDDIO'R LLEOLIAD AT DDEFNYDD GOFAL PLANT	22
SYMPTOMAU.....	22
CYSYLLTIADAU PELLACH.....	23

Gellir gweld canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio canolfannau cymunedol amlbwrpas [yma](#).

Byddwch yn ymwybodol fod y rheoliadau'n parhau i newid a dylech wirio eich bod yn edrych ar llyw.cymru/coronafeirws-ar-gyfraith i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Er bod rhai o'r cyfeiriadau allanol wedi'u creu ar gyfer gwahanol sectorau ac amgylcheddau gwaith, maen nhw wedi'u cynnwys oherwydd gallent hefyd fod yn berthnasol i'ch senario chi.

MESURAU RHESYMOL

At ddibenion lleihau'r risg o ddal neu ledaenu'r coronafeirws, rhaid i'r sawl/rheini sy'n gyfrifol a threfnydd y gweithgaredd gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol:

- gynnal asesiad penodol o'r risg o ddal coronafeirws ar y safle a rhaid iddo hefyd ymgynghori â'r rheini sy'n gweithio ar y safle neu eu cynrychiolwyr

Rhaid iddo hefyd gymryd camau rhesymol i:

- **sicrhau y cedwir pellter o ddau fedr rhwng unrhyw unigolion ar y safle**, heblaw pan mae'r unigolion yn byw yn yr un cartref neu yn yr un cartref estynedig, neu'n ofalwr a'r unigolyn sy'n cael ei gynorthwyo gan y gofalwr
- **cadw pellter o 2 fedr rhwng unigolion pan mae angen iddyn nhw aros i ddod i mewn i'r safle**, heblaw pan mae'r unigolion yn byw yn yr un cartref, neu'n ofalwr a'r unigolyn sy'n cael ei gynorthwyo gan y gofalwr
- darparu awyru digonol, gweler yr adran newydd ar AWYRU

Dylid cymryd pob cam arall rhesymol **i gyfyngu rhyngweithio wyneb yn wyneb a chynnal hylendid**. Mae'r enghreifftiau a ddarperir yn y rheoliadau yn cynnwys:

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

- newid trefn y ganolfan gan gynnwys lleoliad dodrefn a gweithfannau (os yw'n berthnasol)
- rheoli'r defnydd o fynedfeydd, tramwyfeydd, grisiau a lifftiau
- rheoli'r defnydd o gyfleusterau a rennir, fel toiledau a cheginau
- rheoli'r defnydd o unrhyw ran arall o'r safle neu fynediad iddo
- gosod rhwystrau neu sgriniau
- darparu, neu ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio [Cyfarpar Diogelu Personol \(PPE\)](#)

Yn ogystal, **rhaid rhoi gwybodaeth i'r rheini sy'n mynd i mewn i'r canolfannau cymunedol am sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws**, fel [arwyddion diogelwch a chadw pellter corfforol](#).

Dyma fesurau eraill y dylech chi eu hystyried:

- peidio â chynnal gweithgareddau penodol.
- cau rhan o'r safle

Rhaid i chi ganiatáu i'ch staff/gwirfoddolwyr ynysu os byddant yn cael prawf positif am goronafeirws neu os ydynt wedi cael cysylltiad agos â rhywun sydd wedi cael prawf positif am goronafeirws.

Dylech hefyd gasglu gwybodaeth gyswllt gan bob unigolyn ar y safle a chadw'r wybodaeth hon am 21 o ddiwrnodau. Dylech hefyd ceisio sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i chi'n gywir. I gael rhagor o wybodaeth, gweler [PROFI OLRHAIN DIOGELU](#).

Gweler yma am ganllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-leihaur-risg-o-ddod-i-gysylltiad-ar-coronafeirws-mewn-gweithleoedd

ASESU RISG

Cyn ailagor eich canolfan gymunedol, rhaid i chi gynnal asesiad risg Coronafeirws penodol yn ychwanegol at unrhyw asesiad risg a allai fod

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

gennych ar waith eisoes. Mae'n rhaid i'ch asesiad risg fodloni'r gofynion a nodir yn [Rheoliad 3 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999\(1\)](#), waeth a ydych yn destun i'r rheoliadau neu beidio.

Pan fydd cynulliad a reoleiddir yn cael ei gynnal yn y ganolfan gymunedol, rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am drefnu'r cynulliad gwblhau a llunio asesiad risg ar gyfer y cynulliad hwnnw. Dylai'r sawl sy'n gyfrifol am y ganolfan dderbyn copi o'r asesiad hwnnw a bod yn fodlon fod y trefnydd wedi cydymffurfio â gofynion y rheoliadau er mwyn lleihau'r perygl y bydd mynychwyr yn dal yr haint.

Ewch [yma \(Saesneg yn unig\)](#) i weld templed penodol o asesiad risg Coronafeirws a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Os yw cynnal asesiadau risg yn broses anghyfarwydd i chi, ewch [yma \(Saesneg yn unig\)](#) i weld enghreifftiau.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol fod y rheoliadau'n berthnasol i berchennog y ganolfan (y sawl sy'n llogi) a'r rheini sy'n cynnal y gweithgaredd (y llogwr).

Gallai cyhoeddi eich cynlluniau a'ch asesiad risg helpu i dawelu meddwl staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid a bydd yn nodi'r newidiadau a'ch disgwyliadau yn glir. Er enghraifft, newid o archebu'n bersonol i archebu ar-lein a pheidio â derbyn taliadau arian parod.

Cofiwch hefyd eich bod yn talu sylw arbennig i [Reoliad 3 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999\(1\)](#).

CADW PELLTER CORFFOROL/CYMDEITHASOL

Mae mesurau cadw pellter corfforol/cymdeithasol yn gamau a gymerir i leihau rhyngweithio rhwng unigolion/cartrefi er mwyn lleihau trosglwyddiad y Coronafeirws. Mae'r mesurau cyfredol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yn gosod pellter llym o ddau fetr (tua thri cham) rhwng pobl ar eich safle a'ch tir. Efallai y bydd derbyn pobl mewn niferoedd llai yn ei gwneud hi'n bosibl cynnal y pellter hwnnw.

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

Rhaid cymryd ‘mesurau rhesymol’, mae canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru [yma](#), sy’n cynnwys enghreifftiau fel gwasgaru shifftiau/gweithgareddau a lleihau nifer y bobl sydd ar y safle ar unrhyw un adeg. Mae CGGC yn argymhell eich bod yn cadw manylion y camau rydych chi wedi’u cymryd i sicrhau bod ‘mesurau rhesymol’ wedi cael eu gweithredu a manylion yr addasiadau rydych chi wedi’u gwneud i gydymffurfio â’r gofyniad hwn.

Mae newid gosodiad adeiladau, rheoli’r defnydd o fynedfeydd, tramwyfeydd, grisiau a lifftiau, toiledau a cheginau, marciau llawr, llwybrau unffordd, clirio neu rwystro mynediad at ddodrefn, gosod ardaloedd dynodedig a systemau rheoli ciwiau diogel yn rhai o’r mesurau y gallech eu hystyried. Sylwch mai dim ond awgrymiadau o ddulliau posibl yw’r rhain ac nid ydynt yn rhestr wirio: mae pob lleoliad a senario yn wahanol.

AWYRU

Mae sicrhau awyru effeithiol ar safle bob amser wedi bod yn ofyniad cyfreithiol, ond mae nawr yn bwysicach nag erioed gan ei fod yn chwarae rhan bwysig mewn lleihau trosglwyddiad y feirws. Dylai eich ystyriaethau o ran sicrhau awyru digonol fod yn rhan o’ch asesiad risg.

Dylech gael cymaint â phosibl o awyr iach i mewn i’r safle drwy:

- awyru naturiol, trwy agor ffenestri, drysau a fentiau led y pen neu’n lledagored
- awyru mecanyddol, trwy ddefnyddio gwyntyllau neu bibelli
- cyfuniad o awyru naturiol a mecanyddol
- agor ffenestri/drysau cyn i’r mynychwyr gyrraedd, pan fyddant yn gadael a rhwng gweithgareddau

Gellir cael canllawiau pellach [yma](#) gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Saesneg yn unig).

Os yw eich safle wedi bod ar gau am gryn amser, gweler y cyngor sydd ar gael isod:

[Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu \(Saesneg yn unig\)](#)

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

Cymdeithas Gwasanaethau'r Peirianwyr Adeiladu (Saesneg yn unig)

REVHA

Cofiwch ystyried goblygiadau iechyd a diogelwch ar bob adeg, er enghraifft, mae'n rhaid cadw drysau tân ar gau.

ARWYDDION DIOGELWCH A CHADW PELLTER CORFFOROL

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu nifer o arwyddion dwyieithog a allai fod yn ddefnyddiol i chi; mae modd eu gweld [yma](#). Gellir argraffu'r arwyddion hyn a'u harddangos ar eich safle. Mae opsiynau eraill ar gael o ran arwyddion, gan gynnwys amrywiaeth eang o bosteri, labeli ac arwyddion llawr: anfonwch e-bost at rpgenquiries@wcva.cymru os oes angen gwybodaeth arnoch am gyflenwyr.

Mae rheol cadw pellter o ddau fedr ar waith ar hyn o bryd: dylech farcio'r pellter hwn mewn lleoedd y byddai unigolion fel arfer yn ymgynnull, fel y fynedfa i leoliad.

GLANWEITHDRA

Dylech wneud trefniadau ar gyfer hylendid dwylo gwell er mwyn atal y risg o'r haint. Mae golchi eich dwylo â dŵr a sebon am o leiaf 20 eiliad yn helpu i ladd firysau a allai fod ar eich dwylo. Os nad oes dŵr a sebon ar gael, dylech ddarparu gel/hylif dwylo sy'n cynnwys alcohol. Mae golchi dwylo'n arbennig o bwysig wrth fynd i mewn neu allan o'r safle, ar ôl bod i'r toiled ac wrth symud o fewn gwahanol ystafelloedd/ leoliadau o fewn y safle. Dylid defnyddio posterï ac arwyddion i annog unigolion i olchi eu dwylo. Gellid gosod cyfarwyddiadau ar sut i olchi dwylo ger sinciau. Mae amrywiaeth o ddarluniau a phosterï ar gael, fel y rhai [yma](#). Dylech hefyd sicrhau bod digon o gyflenwadau a mynediad at sebon a dŵr, ac ystyried defnyddio biniau â chaead.

Bydd arferion anadlu ystyriol hefyd yn lleihau trosglwyddiad Coronafeirws. Dylai posterï 'Ei dda!, ei daflu, ei ddifa' fod yn weladwy i

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

atgoffa unigolion i barhau â lefelau hylendid da. Gellir dod o hyd i bosteri dwyieithog y gellir eu hargraffu ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru [yma](#).

GORCHUDDION WYNEB

Ar ddydd Llun 14 Medi 2020, daeth yn ofyniad cyfreithiol i wisgo gorchuddion wyneb mewn safleoedd sydd ar agor i'r cyhoedd. Yr eithriad i hyn yw os yw'r unigolyn yn 10 oed neu'n iau neu os oes gan yr unigolyn esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb. **Efallai yr hoffech chi arddangos y poster [hwn](#) ar eich safle.**

Diffinnir canolfan gymunedol fel safle lle y mae'n rhaid i unigolyn wisgo gorchudd wyneb o'i fewn. Efallai y bydd gan ymwelwyr i'ch safle rai cwestiynau ynghylch defnyddio gorchuddion wyneb. Gallai'r wybodaeth ganlynol fod o gymorth.

Diffinnir esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb fel a ganlyn, pan fydd yr unigolyn:

- yn methu rhoi gorchudd ar ei wyneb neu'n methu gwisgo gorchudd wyneb oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, neu oherwydd anabled neu amhariad;
- gyda rhywun sy'n dibynnu ar wefusddarllen lle y mae angen iddo gyfathrebu; neu
- yn dianc rhag bygythiad neu berygl ac nid oes ganddo orchudd wyneb

Argymhellir bod yr unigolyn yn cario gwybodaeth, lle'n bosibl, i ddangos pam fod ganddo esgus rhesymol, fel presgripsiwn neu lythyr apwyntiad o'r ysbyty. Gall yr unigolyn hefyd ddewis gwisgo laniard i ddangos ei bod wedi'i eithrio rhag gwisgo gorchudd wyneb - mae llawer o'r cynhyrchion hyn ar gael ar-lein. Fodd bynnag, dylai'r unigolyn sicrhau bod ganddo esgus rhesymol, neu fe allai wynebu dirwy am beidio â chydymffurfio â'r gofynion.

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

Dylid gwisgo gorchuddion wyneb ar bob adeg a rhaid eu gwisgo'n gywir. Fodd bynnag, gallai fod gan yr unigolyn esgus rhesymol dros dynnu'r gorchudd o'i wyneb **dros dro**. Dyma rai enghreifftiau:

- i gymryd meddyginiaeth
- i fwyta neu yfed
- i osgoi niwed neu anaf, naill ai i'r unigolyn ei hun neu i bobl eraill, fel i rybuddio rhywun arall o berygl

Os ydych chi'n defnyddio gorchudd wyneb neu fasg, rhaid i chi beidio â'i dynnu i ffwrdd a'i adael ar arwynebau a rhaid i chi beidio â gadael gorchudd wyneb/masg o dan eich trwyn nac yn hongian o'ch gên. Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o sut i wisgo a gofalu am eich gorchudd wyneb yn ddiogel, gweler [yma](#) am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru.

PROFION LLIF UNFFORDD

Yng Nghymru, caiff pobl nad ydynt yn gallu gweithio gartref, gan gynnwys gwirfoddolwyr, eu hannog i brofi eu hunain ddwywaith yr wythnos, gyda rhyw dri neu bedwar diwrnod rhwng y profion, gan ddefnyddio Profion Llif Unffordd. Cyfeiriwch at y ddogfen hon am ragor o wybodaeth: [Fframwaith profi COVID-19 yn y gweithle](#).

Gellir cael Profion Llif Unffordd ar-lein neu wyneb yn wyneb, gweler isod am fanylion:

Ar-lein: <https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/testing/get-tested-for-coronavirus/> (Saesneg yn unig)

Wyneb yn wyneb: <https://maps.test-and-trace.nhs.uk/> (Noder bod y wefan yn gofyn am godau post yn Lloegr a'r Alban, ond mae'n gweithio ar gyfer Cymru hefyd).

I gael trosolwg o brofion llif unffordd a chyfarwyddiadau ar sut i wneud prawf llif unffordd, gweler yma: <https://llyw.cymru/profion-llif-unffordd-covid-19-ar-gyfer-pobl-heb-symptomau>.

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

Os byddwch chi'n cael prawf positif, mae'n rhaid i chi hunanynysu ar unwaith am 10 diwrnod a chymryd prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR) mewn canolfan brofi o fewn 24 awr. [Gallwch chi archebu prawf ar-lein ar GOV.UK \(Saesneg yn unig\)](#), neu drwy ffonio 119 rhwng 7am ac 11pm (galwadau am ddim) neu drwy ap COVID-19 Y GIG.

PROFI, OLRHAIN, DIOGELU

Er mwyn rheoli lledaeniad y feirws, mae CGGC yn argymhell eich bod yn cadw cofnod o bawb sy'n dod i mewn i'ch safle, yn unol â strategaeth [Profi, Olrhain, Diogelu](#) Llywodraeth Cymru. Dylech hefyd sicrhau bod y rhai sy'n llogi'r lleoliad yn cadw cofnodion at yr un dibenion.

Dyma'r math o wybodaeth gyswllt y dylech chi ei chael:

- enw'r unigolyn
- rhif ffôn
- y dyddiad a'r amser yr oedd yr unigolyn ar y safle

Dylid storio'r wybodaeth hon yn ddiogel a'i chadw am 21 o ddiwrnodau, a gellid ei rhoi i Weinidogion Cymru neu swyddogion olrhain cysylltiadau yn ôl y gofyn.

Sylwch nad yw deddfwriaeth ar Ddiogelu Data (e.e. GDPR, Deddf Diogelu Data 2018) yn atal rhannu data lle mae budd cyhoeddus o'r pwys mwyaf. Fodd bynnag, rhaid i chi hysbysu unigolion o sut bydd eu data'n cael ei ddefnyddio. Er enghraifft, cynlluniwch ar gyfer y tebygolrwydd y bydd rhaid i chi basio gwybodaeth unigolion ymlaen i'r cynllun Profi, Olrhain, Diogelu os bydd angen i swyddogion olrhain cysylltiadau gysylltu â nhw. Rydyn ni wedi cael ein hysbysu o achosion lle y mae unigolion sy'n gadael eu manylion ar gyfer Profi, Olrhain, Diogelu wedi cael rhywun yn cysylltu â nhw am resymau eraill. Ni chaniateir hyn. Mae'n bwysig eich bod yn gadael yr agwedd olrhain i'r tîm Profi, Olrhain, Diogelu. Sicrhewch

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

hefyd nad yw manylion personol unigolion yn cael eu harddangos i bawb eu gweld.

Dylech adolygu'ch hysbysiadau preifatrwydd i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio gan ystyried y newidiadau mewn amgylchiadau. Anogir chi hefyd i gyflwyno'r hysbysiad preifatrwydd i'r unigolyn yn uniongyrchol (naill ai ar lafar neu drwy hysbysiad preifatrwydd wedi'i argraffu) ar yr adeg y byddwch chi'n casglu ei fanylion. Os oes angen help arnoch i lunio'r hysbysiad preifatrwydd, mae'r ICO wedi creu templed y gellir dod o hyd iddo [yma \(Saesneg yn unig\)](#). Noder nad gofyniad cyfreithiol fydd y sail gyfreithiol dros gasglu'r data, oherwydd nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ganolfannau cymunedol gasglu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae'n gam rhesymol y byddai disgwyl i chi ei gymryd.

Mae'r ICO hefyd wedi cynhyrchu rhai canllawiau defnyddiol ynglŷn â chasglu manylion cwsmeriaid ac ymwelwyr, sydd ar gael [yma \(Saesneg yn unig\)](#). Ewch [yma](#) hefyd i weld canllawiau Llywodraeth Cymru ar gadw cofnod o staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr.

Noder ei fod, o dan y rheoliadau newydd, yn drosedd i roi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol i swyddog olrhain cysylltiadau.

AP COVID-19 Y GIG

Ar ddydd Iau 24 Medi 2020, lanswyd ap COVID-19 y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn annog mudiadau i arddangos posteri QR y GIG wrth fynedfeydd er mwyn i'r rheini sydd wedi lawrlwytho'r ap ddefnyddio'u ffonau i nodi ble maen nhw. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru [yma](#) a chanllawiau [yma](#).

I greu cod QR i arddangos ar eich safle, gweler [yma](#).

Argymhella CGGC eich bod yn cadw cofrestr o'r mynychwyr hefyd.

YR UNIGOLYN/UNIGOLION CYFRIFOL

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

Mae'r rheoliadau yn cyfeirio at amrediad o gyfrifoldebau sydd gan yr unigolion cyfrifol. Er eglurder, mae'r rheoliadau'n cynnwys y diffiniad canlynol:

'mae "person sy'n gyfrifol am gynnal busnes" yn cynnwys perchennog a rheolwr y busnes hwnnw'.

GORFODI

Yn ôl y rheoliadau, diffinnir swyddog gorfodi fel cwnstabl neu swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu unigolyn a ddynodir gan Weinidogion Cymru, awdurdod lleol, awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall y swyddog gorfodi:

- **Cyflwyno hysbysiad gwella safle** pan mae sail resymol dros amau bod rhywun wedi torri gofyniad yn y rheoliadau
- **Mynd i mewn i'r safle** pan mae sail resymol dros amau bod rhywun wedi torri gofyniad yn y rheoliadau
- **Cyflwyno hysbysiad cau safle** pan na fydd y gofynion a amlinellir yn yr hysbysiad cydymffurfio wedi'u bodloni.

I gael rhagor o wybodaeth am orfodi, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer swyddogion gorfodi y gellir dod o hyd iddynt [yma](#).

POBL AGORED I NIWED

Mae dyletswydd statudol ar gyflogwyr i warchod iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr yn y gweithle cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, yn ogystal â dyletswydd i ofalu amdanynt. Mae'n bwysig nodi y gallai cyfran sylweddol o'ch gweithwyr/gwirfoddolwyr fod wedi dioddef neu yn dioddef straen a phryder a dylech sicrhau bod cefnogaeth ar gael. Mae'r ymgyrch Sut wyt ti? gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu adnoddau defnyddiol [yma](#).

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

Efallai fod rhai unigolion yn poeni eu bod mewn mwy o risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â'r Coronafeirws. Yn yr achosion hyn, mae CGGC yn eich cynghori chi i gynnal asesiad risg penodol gan ddefnyddio'r adnodd hwn: [Asesiad Risg Covid-19 ar gyfer y Gweithlu](#). Er ei fod wedi cael ei ddylunio ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, mae modd ei ddefnyddio yn unrhyw weithle. Mae'n rhoi canllawiau defnyddiol iawn i'r unigolyn a'r cyflogwr. Mae rhagor o wybodaeth am yr adnodd ar gael [yma](#).

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r unigolion y nodir eu bod mewn [mwy o berygl o'r coronafeirws](#), oherwydd fe gynghorir y grŵp hwn i dalu sylw penodol i'r canllawiau ar [gadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo](#).

Mae gwefan Cymru Iach ar Waith yn cynnwys gwybodaeth a chyngor defnyddiol i gefnogi cyflogwyr a chyflogeion. Gellir dod o hyd i hyn [yma](#).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn annog unigolion i weithio o gartref lle bynnag y bo'n bosibl, gan nodi, 'Ni ddylid gofyn na rhoi pwysau ar staff i ddychwelyd i weithle os nad oes achos busnes clir dros wneud hynny'. Gweler [yma](#) am ragor o wybodaeth.

GWIRFODDOLWYR

Mae'n ddyletswydd ar fudiadau i ofalu am wirfoddolwyr, ac fe ddylent dderbyn yr un lefel o warchodaeth ag unrhyw gyflogai. Gweler [yma](#) i gael rhagor o wybodaeth gan CGGC ac i weld y canllawiau hyn ar [wirfoddoli ar ôl y cyfyngiadau symud \(Saesneg yn unig\)](#).

YSWIRIANT

Mae'n bwysig iawn rhoi gwybod i'ch cwmni yswiriant am eich gweithgareddau. Bydd eich cwmni yswiriant yn gofyn i chi ddilyn a chydymffurfio â'r holl argymhellion a chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen i chi hysbysu'ch cwmni yswiriant y byddwch chi'n aildechrau gwasanaethau, a thrafod unrhyw ofynion

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

newydd y mae'n rhaid i chi eu hystyried er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'ch polisi yswiriant.

Mae broceriaid Thomas Carroll wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer mudiadau sy'n ailddechrau eu gwasanaethau, ac maen nhw i'w gweld [yma](#) and [yma](#).

YMDDIRIEDOLWYR A LLYWODRAETHU DA

Mae gan ymddiriedolwyr rôl bwysig i'w chwarae a rhaid i chi weithredu i leihau'r potensial o ledaenu'r Coronafeirws ymhlith unigolion yn eich safle ac ar eich tir. Rhaid i chi gadw'r holl ddogfennau ar asesiadau a wnaed a chofnodi'r holl benderfyniadau a wnaed.

O ran trefniadau llywodraethu yn ystod y pandemig hwn, cynghorir ymddiriedolwyr i gyfarwyddo'u hunain â'r [canllawiau \(Saesneg yn unig\)](#) sydd ar gael gan y Comisiwn Elusennau, a chadw i'r funud â newidiadau a newyddion diweddaraf. Er enghraifft, ym mis Mehefin 2020, cynhyrchodd y Comisiwn Elusennau ganllawiau ar adrodd digwyddiadau difrifol yn ystod pandemig y coronafeirws. Gellir cael rhagor o wybodaeth [yma \(Saesneg yn unig\)](#).

Efallai y bydd yn rhaid i chi addasu natur eich gwasanaethau oherwydd achosion o'r Coronafeirws. Os felly, cyfeiriwch at eich amcanion elusennol yn eich dogfennau llywodraethu i sicrhau bod unrhyw wasanaethau newydd yn unol â'ch amcanion.

CYMRYD ARCHEBION A THALU GYDAG ARIAN PAROD

Lle bo modd, dylech geisio cymryd archebion ar-lein neu dros y ffôn. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylech osgoi trin arian parod ac ystyried taliadau digyswllt, cerdyn neu ar-lein. Os oes rhaid i chi barhau i gymryd arian parod, yna dylid gwisgo menig wrth drin arian.

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

CONTRACTAU A LLOGI CANOLFANNAU

Mae'n bwysig ymgynghori â'r rhai sy'n llogi'ch canolfan, yn enwedig y rhai sy'n llogi slotiau rheolaidd. Efallai, er enghraifft, bod angen ystafell fwy nag arfer arnynt er mwyn cadw at fesurau cadw pellter cymdeithasol.

Dylech hefyd ystyried a yw'n ofynnol i'r sawl sy'n llogi'r lleoliad lanhau arwynebau ac offer, neu a yw hyn yn rhywbeth y byddwch chi'n ei reoli. Rhaid i chi fod yn hyderus bod y glanhau yn cael ei wneud i'r lefel uwch sydd bellach yn ofynnol a bod yr unigolion yn cyflawni'r gofynion trylwyr ac yn dilyn canllawiau ar lanhau.

Argymhellir eich bod yn darparu hylif/gel/hylif diheintio ag alcohol wrth fynedfeydd/allanfeydd ac mewn ystafelloedd cyfarfod. Dylech hefyd gofnodi'r amser a'r dyddiad diwethaf y cafodd y lleoliad ei lanhau a gallech ystyried ei arddangos i dawelu meddwl ymwelwyr eich canolfan.

Dylech roi blaenoriaeth i wasanaethau hanfodol yn ystod y cam ailagor. Lle mae gan y ganolfan nifer o archebion, efallai y bydd angen i chi adael cyfnod hirach o amser rhwng yr archebion er mwyn gallu glanhau ac atal tagfeydd rhag ffurfio wrth i bobl fynd i mewn ac allan o ystafelloedd/y safle. Dylech hefyd sicrhau bod cyflenwadau'n cael eu hail-lenwi, fel hylif diheintio a deunyddiau glanhau.

Gallech ystyried rhoi amodau newydd i bobl sy'n llogi'r adeilad yn sgil y Coronafeirws, yn ysgrifenedig ac ynghlwm wrth y cytundeb llogi arferol. Rhaid i logwyr dderbyn yr amodau newydd yn ysgrifenedig (trwy lofnod). Mae CGGC yn trafod â [Chyfreithwyr Dolmans \(Saesneg yn unig\)](#) ar hyn o bryd, ac maen nhw wedi bod yn ddigon caredig i gytuno i baratoi telerau ac amodau drafft y gall mudiadau eu defnyddio, y gellir eu gweld yma. Gallech ddewis defnyddio rhai o'r telerau hyn neu'r holl delerau, nid oes yn rhaid i chi eu defnyddio, ond dylent helpu os nad ydych eisoed wedi diwygio eich telerau ac amodau. Mae'n hollbwysig eich bod yn darllen drwy'r telerau er mwyn pennu pa rai yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

eich mudiad. Rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod chi a'r sawl sy'n llogi yn deall ac yn cadw at y telerau hyn, maen nhw'n berthnasol i'r ddwy ochr. Noder hefyd y gallai fod angen diweddarw'r telerau o bryd i'w gilydd, yn unol ag unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth.

Dylech ddarparu copi o'ch asesiad risg i'ch llogwyr. Yn ogystal, rhaid i chi gael copi o asesiad risg y sawl sy'n llogi'r lle.

Dylid annog y rhai sy'n llogi'ch canolfan i ddod â'u bwyd a'u diod eu hunain yn hytrach na gwneud bwyd a diod ar y safle, gan leihau'r glanhau sy'n ofynnol yn y gegin. Dylid annog llogwyr sy'n dod â'u hoffer eu hunain i mewn i ddefnyddio eu hylif diheintio a'u thywelion gwlyb eu hunain.

GLANHAU

Mae'n debygol iawn bod eich safle wedi bod ar gau ers cryn amser ac felly dylech gynnal gwiriad iechyd a diogelwch cyffredinol cyn ailagor. Mae risg uwch o dwf bacteria, er enghraifft clefyd y lleng filwyr, oherwydd bod dŵr wedi bod yn llonydd. Dylech wneud gwaith glanhau dwfn a diheintio'r safle'n drylwyr cyn ailagor. Mae Scouts Cymru wedi llunio rhestr wirio ddefnyddiol iawn, y gellir ei gweld [yma \(Saesneg yn unig\)](#) a'i defnyddio ochr yn ochr â chanllawiau'r llywodraeth, nid yn eu lle.

Dylid rhoi protocolau glanhau ar waith: bydd angen i chi benderfynu pa mor aml y dylid glanhau/dihalogi'n rheolaidd a bydd hyn yn seiliedig ar eich asesiad risg. Dylech hefyd gofnodi pryd gafodd y lle ei lanhau ac arddangos y manylion. Os nad ydych chi'n trosglwyddo'r dyletswyddau glanhau i'r llogwyr, bydd angen i chi sicrhau bod gan yr unigolyn sy'n gyfrifol, e.e. y gofalwr, amserlen glir o'r sesiynau sydd wedi'u llogi a bod digon o amser yn cael ei ddyrannu ar gyfer dyletswyddau glanhau.

Wrth ystyried eich trefniadau glanhau, dylech gyfeirio at y canllawiau sydd ar gael gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

amlinellir [yma \(Saesneg yn unig\)](#). Dylech nodi arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml fel dolenni drysau, switsys golau, ac ati, oherwydd bydd angen glanhau'r rhain yn fwy rheolaidd nag arfer, yn ogystal ag atgoffa pobl i olchi eu dwylo. Mae'r canllaw yn awgrymu dau ddull glanhau: glanhau dwfn a glanhau cyfnodol. Mae hefyd yn awgrymu eich bod yn cyfyngu symudiadau ac yn lleihau'r angen i bobl gyffwrdd â gwrthrychau ac mae'n cynnwys rhai awgrymiadau defnyddiol. Lle bo modd, dylech gael gwared ar gylchgronau a llenni a deunyddiau.

Lle bo unigolyn yn dangos symptomau'r coronafeirws neu wedi cael canlyniad positif i'r prawf, rhaid rhoi gwastraff mewn bag sbwriel plastig a'i glymu pan fo'n llawn, wedyn ei roi mewn bag bin arall a chlymu hwnnw, wedyn ei rhoi mewn cynhwysydd gwastraff priodol a diogel am o leiaf 72 awr cyn iddo gael ei gasglu gyda'r gwastraff arferol.

Os nad yw'r unigolyn yn dangos symptomau'r coronafeirws nac wedi cael canlyniad positif i'r prawf, does dim angen i chi ddioli gwastraff a gallwch gael gwared â gwastraff fel arfer.

Nodwch fod yn rhaid glanhau dyfeisiau symudol hefyd, gweler [yma](#) am ragor o wybodaeth (Saesneg yn unig).

Mae'r canllaw hwn ar [ddihalogi mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd \(Saesneg yn unig\)](#) hefyd yn darparu rhagor o wybodaeth ddefnyddiol.

CYNNYRCH GLANHAU

Yn anochel bydd mwy o alw am gynhyrchion glanhau a hylif diheintio dwylo. Os na all eich cyflenwr arferol eich cynorthwyo, anfonwch e-bost at rpgenquiries@wcva.cymru os oes angen gwybodaeth am gyflenwyr arnoch chi.

I gael gwybodaeth am ddewis diheintyddion arwyneb, darllenwch [hwn \(Saesneg yn unig\)](#) gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

CYFLENWADAU CYFARPAR DIOGELU PERSONOL (PPE)

Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cynnwys eitemau fel masgiau wyneb, ffedogau, menig, feisorau, gorchuddion esgidiau, ac ati. Mae cynnydd yn y galw am gyfarpar diogelu personol ers y Coronafeirws wedi gweld llawer iawn o gynhyrchion ffug a chynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio yn dod i mewn i'r farchnad, mae'n hanfodol eich bod yn prynu cynhyrchion sydd wedi'u hardystio'n gywir yn unig.

Efallai na fydd angen cyfarpar diogelu personol ar eich mudiad, a dylid dod i benderfyniad am hyn drwy eich asesiad risg a'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynghori nad oes unrhyw ofyniad i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol, ac eithrio wrth ddarparu gofal personol/clinigol uniongyrchol o fewn dau fetr neu ble na ellir osgoi bod o fewn dau fetr i unigolyn. Mae gwybodaeth bellach a mwy manwl ar gael [yma \(Saesneg yn unig\)](#).

Os dewch i'r casgliad bod yn rhaid cael cyfarpar diogelu personol, mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i chi sicrhau eich bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r cyfarpar er mwyn iddo fod yn effeithiol. Ni fydd yn atal yr haint rhag lledaenu oni bai ei fod:

- yn cael ei ddefnyddio a'i newid ar yr amser iawn
- yn mynd law yn llaw â hylendid dwylo da,
a
- bod arferion anadlu ystyriol ar waith

Os ydych chi'n defnyddio menig a ffedogau er enghraifft, cofiwch mai eitemau untro yn unig yw'r rhain. Dylid golchi dwylo neu ddefnyddio gel rhwng defnyddwyr gwasanaeth **ac** ar ôl tynnu menig.

Mae hunan-halogi yn gyffredin iawn wrth dynnu cyfarpar diogelu personol. Mae canllawiau ar wisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol ar gael [yma \(Saesneg yn unig\)](#).

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

Os byddwch chi'n cael unrhyw anawsterau dod o hyd i PPE, anfonwch e-bost at rpgenquiries@wcva.cymru. I fudiadau'r sector cyhoeddus, cysylltwch ag NPSCorporateServices@gov.wales.

CYDRADDOLDEB

Rhaid i'ch strategaeth i aildechrau gwasanaethau gydnabod anghenion a hawliau unigolion. Er enghraifft, ni ddylai unrhyw rwystrau corfforol, rhwystrau cyfathrebu newydd ac ati greu rhwystr i bobl sy'n defnyddio ffyn cerdded neu gadeiriau olwyn, dylent fod yn weladwy ac yn glir ac ni ddylent fod yn berygl i bobl â nam ar eu synhwyrau. Gallech hefyd ystyried, er enghraifft, darparu bag gerllaw i gael gwared ar hancesi papur ar unwaith lle gallai fod angen cymorth ar unigolion sy'n peswch neu disian.

YR IAITH GYMRAEG

Er bod Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod yn ystod argyfwng cenedlaethol ei bod yn bosibl nad yw rhai mudiadau'n gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg ym mhob sefyllfa, rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg o hyd. Hefyd, mae'n bwysig cynnwys hyn fel rhan o'ch cynllunio, er enghraifft, sicrhau bod arwyddion yn ddwyieithog. I gael gwybodaeth am wasanaethau a chynigion yn ymwneud â'r Gymraeg, gweler [yma](#).

DEFNYDDIO'R LLEOLIAD AT DDEFNYDD GOFAL PLANT

Dylai canolfannau sy'n darparu gofal plant neu wasanaeth meithrinfa ddilyn y canllawiau perthnasol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru [yma](#).

SYMPTOMAU

Cofiwch os byddwch yn datblygu un o'r symptomau canlynol:

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020

- tymheredd uchel: mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth ar eich brest neu'ch cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu peswch llawer am fwy nag awr, neu dri phwl o beswch neu ragor mewn 24 awr (os oes gennych chi beswch fel arfer, gallai fod yn waeth nag arfer)
- colli'ch synnwyr arogli neu flasau neu newid yn y synhwyrâu hyn: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi nad ydych chi'n gallu arogli neu flasau unrhyw beth, neu fod pethau'n arogli'n wahanol i'r arfer

Dylech ddilyn y [canllawiau hunanynysu](#) a gwneud cais am [brawf coronafeirws](#).

CYSYLLTIADAU PELLACH

Mae gan bob sir wahanol drefniadau cymorth. Os oes gennych chi eisoes gyswllt yn eich awdurdod lleol a/neu gyngor gwirfoddol sirol, argymhellir eich bod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag ef i gael cymorth ymarferol a chlywed am newidiadau i'r rheoliadau a chanllawiau.

Mae manylion cyswllt ar gael [yma](#) ar gyfer awdurdodau lleol ac [yma](#) ar gyfer y cyngorau gwirfoddol sirol lleol.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u llunio gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) mewn ymateb i ymholiadau gan y sector gwirfoddol yng Nghymru. Gyda diolch i Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC), Un Llais Cymru, Scouts Cymru a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion am eu cymorth, eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.

Ysgrifennwyd gan Emma Waldron, Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, CGGC - 10 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd: 26 Awst 2020, 6 Hydref 2020, 8 Tachwedd 2020